# Datganiad Polisi Cydraddoldeb & Amrywiaeth

**Mae Ymgynghorwyr Rheolaeth Impact wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth lle mae pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac urddas naill at y llall a lle rydym yn cydnabod bod ein gallu i fodloni anghenion ein cleientiaid yn cael ei wella drwy gael gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru a'r gymuned ehangach.**

Ein nod yw trechu pob math o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a diogelu buddiannau pob grŵp cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan gyfeirio at y naw nodwedd warchodedig: Ethnigrwydd, Rhyw, Hunaniaeth o ran Rhywedd, Anabledd, Crefydd a Chred, Oed, Beichiogrwydd a Mamolaeth/Tadolaeth, Partneriaethau Sifil a Chyfeiriadedd Rhywiol a hefyd gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig ganfyddedig neu gysylltiadol.

**Mae gennym ymrwymiad cadarn i:**

- Ddatblygu amgylchedd gwaith cynhwysol, gan ddarparu cyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i bawb o'n gweithwyr, is-gontractwyr, cleientiaid, partneriaid a rhanddeiliaid.
- Cymryd camau cadarnhaol lle bo modd i fynd i'r afael ag unrhyw dan-gynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifol yn ein darpariaeth gwasanaeth.
- Dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon. Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol hil.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl ac eraill a chymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl
- Dileu aflonyddu
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl, pobl o bob oed waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred
- Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw, a gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cyflog Cyfartal.

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein darpariaeth gwasanaeth

Bydd **Impact** yn monitro 'r polisi cyfle cyfartal er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd , gan gadw pob polisi dan adolygiad a gweithredu newidiadau lle y gallai 'r rhain wella cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn cyflogaeth, caffael a darparu gwasanaethau.

Mae Impact yn ymrwymedig i welliant parhaus a bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd (o leiaf bob chwe mis) o ran ei effeithiolrwydd a'i ddiweddaru pan fo angen.

Y person sy'n gyfrifol am reoli'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hwn yw'r: **Cyfarwyddwr Prosiectau, Katharine Notley** ac fe'i cefnogir hi gan y rheolwyr . Os hoffech roi adborth ar unrhyw agwedd o'n gwaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth , neu am unrhyw wybodaeth bellach , cysylltwch â Katharine gan ddefnyddio.
k.notley@impact-innovation.co.uk
07793 122936